

ANTUR NANTLLE CYF

Swyddfa 8
Tŷ Iorwerth
39 Heol y Dŵr
Penygroes
Caernarfon
Gwynedd
LL54 6LW



Swydd Ddisgrifiad: Cynorthwy-ydd Siop Cynnyrch Lleol a Lle Chwarae i Blant (Y Banc, Penygroes) **2 swydd, 20 awr yr un**

Dyddiad cau: 12:00yp 27-04-2018
Oriau: 20 awr yr wythnos
Cyflog: Isafswm cyflog cenedlaethol + 20c / awr

Rheolwr Llinell: Prif Swyddog Antur Nantlle

Pwrpas y Swydd

- Sicrhau fod Y Banc yn groesawgar i gwsmeriaid
- Gwerthu cynnyrch y siop i gwsmeriaid
- Goruchwylio'r lle chwarae i blant
- Cadw'r siop a'r lle chwarae i blant yn lân a thaclus ar bob achlysur

Cyfrifoldeb

- Offer
- Stoc
- Arian
- Adeilad

Prif Ddyletswyddau

1. Gosod stoc mewn modd deniadol yn y siop
2. Derbyn taliadau cwsmeriaid am nwyddau'r siop
3. Cyfathrebu lefelau stoc i gynhyrchwyr
4. Cadw cofnod o bob gwerthiant drwy sistem EPOS
5. Glanhau'r siop a'r lle chwarae i blant i sicrhau ei fod yn daclus, glân a diogel ar bob achlysur
6. Adrodd ar unrhyw ddiffygion neu nam ar unrhyw offer neu gyfarpar yn y siop a'r lle chwarae i blant
7. Agor a chau'r siop â'r lle chwarae i blant
8. Cyflawni unrhyw ddyletswyddau perthnasol yn ôl cais rhesymol
9. Cydymffurfio gyda Deddf Iechyd a Diogelwch yn y gweithle 1974

10. Efallai y bydd amgylchiadau yn codi pan fydd angen i'r unigolyn weithio oriau ychwanegol

Mae'r swydd ddisgrifiad yma yn disgrifio prif bwrpas y swydd ond nid ydyw yn hollgynhwysfawr ym mhob agwedd ac nid yw yn rhan o gytundeb cyflogaeth.

Manylion Person

Hanfodol

- Y gallu i siarad ac ysgrifennu Cymraeg a Saesneg
- Meddu ar sgiliau rhyngpersonol da
- Sgiliau cyfathrebu da
- Gallu gweithredu yn unigol ac fel aelod o dîm heb arweiniad cyson

Dymunol

- Profiad o weithio mewn siop
- Profiad o drin arian parod, systemau EPOS a derbyn taliadau gyda cherdyn debyd/gredyd
- Cymhwyster hylendid bwyd
- Profiad o weithio mewn gofod chwarae plant
- Hyfforddiant mewn lechyd a Diogelwch, e.e. symud a thrin neu cymorth cyntaf
- Profiad o weithio mewn swydd glanhau
- Meddu ar sgiliau rhyngpersonol da
- Sgiliau cyfathrebu da
- Gallu gweithredu yn unigol ac fel aelod o dîm heb arweiniad cyson
- Perchen ar drwydded yrru gyfredol

Eraill

Byddwn yn gofyn am ddatleniad gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd ar gyfer yr ymgeisydd llwyddiannus.

Gwahoddir ceisiadau am y swydd hon drwy lythyr a CV. Byddwn yn gofyn am eirida gan ddau ganolwr a gofynnwn i chi nodi'r enwau yma ar eich CV er mwyn i ni allu cysylltu â hwy.

Disgwylir agor Y Banc ar 1 Gorffennaf 2018 ac y bydd y swydd yn cychwyn bythefnos cyn y dyddiad agor.

Bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn derbyn hyfforddiant ar gyfer y swydd.

Defnyddir rhain fel meini prawf wrth asesu pob ymgeisydd.

